


## Safonau yn y diwydiant angladdau—taflen ffeithiau

### Cefndir

Daw aelodau TCC o wahanol grwpiau ffydd, grwpiau cymunedol ac ysgolion ar draws gogledd ddwyrain Cymru. Rydym yn mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol trwy gefnogi cymunedau amrywiol i feddu'r grym sydd ei angen arnynt er mwyn creu newid. Fe wnawn hyn trwy waith trefnu cymunedol: a dod â grwpiau lleol ynghyd fel y gallant osod eu agenda eu hunain, gweithredu a gwella eu cymunedau.

Rydym yn gweithio gyda'r sawl sydd mewn grym er mwyn sicrhau fod gan y gymuned fewnbwn i'r penderfyniadau a wneir sydd yn effeithio arnynt. Mae'r materion dan sylw gennym yn eang iawn gan eu bod yn deillio o brofiadau uniongyrchol ein haelodau. Mae'r daflen ffeithiau hon wedi ei hanelu at grwpiau cymunedol ac ymgyrchwyr allai fod yn awyddus i weithredu ynghylch materion angladdol yn eu hardaloedd eu hunain.

*Sut beth oedd eich profiad diwethaf chi yn delio gyda chyfarwyddwr angladdau?*




Da—83%  
Gwael—7%  
Gweddol—10%

### Y mater

Daeth i sylw aelodau'r TCC bod llawer o bobl yn methu â chael unrhyw amcangyfrif o bris gan sawl cyfarwyddwr angladd wrth fynd ati i drefnu angladd. Gydag angladdau'n costio rhai miloedd o bunnau, 'roedd peidio â gwybod y pris yn bryder mawr i lawer o deuluoedd. Ar adeg trefnu'r angladd, 'roedd sawl un yn cytuno i beth bynnag y byddai'r cyfarwyddwr angladdau yn ei awgrymu, dim ond i dderbyn sioc wrth weld maint y bil wedi i hwnnw gyrraedd yn sgil yr angladd.

*Cred 96% y dylid sefydlu rheoliad gorfodol fel bod rhaid i gyfarwyddwyr angladdau gadw at yr un safonau.*



Aeth aelodau TCC ati i ymchwilio i'r mater a chael cryn syndod o ddarganfod nad oes angen trwydded i ddod yn gyfarwyddwr angladdau ac nad oes rheoleiddio ar y diwydiant. Mae rhai cyfarwyddwyr angladdau yn aelodau o gymdeithasau masnachol, sydd yn gweithredu eu côd ymddygiad eu hunain. Fodd bynnag, os daw'r gymdeithas fasnachu i wybod nad yw'r cyfarwyddwr

angladdau yn cadw at y cod ymddygiad, dim ond tynnu'r aelodaeth o'r gymdeithas fasnachol oddi arnynt y gallant ei wneud; does dim modd iddynt atal cyfarwyddwr angladdau rhag gweithredu.


*“Dylid atal unrhyw gyfle i gowbois neu pobl â safonau slac i sefydlu eu hunain mewn busnes fel cyfarwyddwyr angladdau” “Cefais andros o sioc o ddarganfod nad oes angen trwydded na chymhwyster i sefydlu busnes fel cyfarwyddwr angladdau—dylai hyn fod yn orfodol!”*

Gofynnwyd i'n grwpiau aelod gymryd rhan mewn arolwg i weld faint yr oedd pobl leol yn ei wybod am y diwydiant angladdau, a beth fu eu profiadau eu hunain wrth ddelio â chyfarwyddwyr angladdau.

Gwahoddwyd yr holl gyfarwyddwyr angladdau lleol i fynychu fforwm a drefnwyd gan TCC er mwyn trafod y materion dan sylw a chlywed barn y cyfarwyddwyr angladdau eu hunain. Roedd sawl un o'r cyfarwyddwyr a fynychodd y fforwm yn frwdfrydig iawn ynghylch gweithio gyda'r gymuned leol, gan ddweud eu bod hwy eu hunain wedi bod yn galw am reoleiddio'r diwydiant yn well ers blynnyddoedd, gan fod cyfarwyddwyr angladdau amhroffesiynol yn rhoi enw gwael i'r diwydiant yn ei chyfarwydd.

***A gafodd y prisiau eu hesbonio'n glir i chi yn y cyfarfod cyntaf gyda'r cyfarwyddwyr angladdau?***  
*"Mae rhai wedi bod yn glir iawn, ac eraill ddim"*  
*"Do, ond dim ond wedi inni ofyn yn uniongyrchol."*

*Dydi 96% ddim yn gwybod pa effaith y mae bod mewn cymdeithas fasnachol yn ei gael ar gyfarwyddwyr angladdau.*



Yn y pendraw, llwyddodd TCC i gyrraedd cytundeb gyda phob cyfarwyddwr angladdau yn y sir a chael ymrwymiad ganddynt i gyflwyno eu prisiau cyn i'r angladd ddigwydd. Cyflwynodd aelodau TCC eu darganfyddiadau i grŵp traws bleidiol Llywodraeth Cymru ar angladdau a phrofedigaeth, a derbyn eu cefnogaeth hwy dros reoleiddio'r diwydiant yn well. Mae'r grŵp traws bleidiol bellach yn gweithio er mwyn hyrwyddo'r budd o ddefnyddio cyfarwyddwyr angladdau sy'n gweithio i gôd ymddygiad y gellid ei orfodi, megis y rhai sy'n aelodau o Gymdeithas Cenedlaethol y Cyfarwyddwyr Angladdau neu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Angladdau Perthynol ac Annibynnol.

## Beth y gallwch chi ei wneud

Y cam cyntaf yw cysylltu gyda chyfarwyddwyr angladdau yn eich ardal i weld beth yw eu safbwynt hwy ar y mater hwn. Yn ffodus, mae'r rhan fwyaf o gyfarwyddwyr angladdau yn broffesiynol iawn ac yn glynnu at safonau uchel, felly mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf yn gefnogol ac yn barod i helpu.

Gallwch hefyd dderbyn ymrwymiad gan gyfarwyddwyr angladdau yn eich ardal i gyflwyno eu prisiau i gwsmeriaid cyn i'r angladd ddigwydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn diolch yn gyhoeddus i gyfarwyddwyr angladdau sy'n cytuno i hyn, a dilyn hyn gyda galwadau ffôn i bob cyfarwyddwr angladdau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno eu prisiau.

Gallwch godi ymwybyddiaeth cymdeithasau masnachu angladdau megis NAFD a SAIF, ac ysgrifennu at eich AS, yn gofyn am gyflwyno rheoleiddio gwell ar gyfer y diwydiant angladdau.

Am ragor o wybodaeth neu gefnogaeth, cysylltwch â TCC .



*Cyfarfod aelodau TCC gyda chyfarwyddwyr angladdau yn Wrecsam.*